# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 23 Hydref 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Targed Creu Swyddi Newydd

**C12 Pauline Jarman:** A all y Prif Weinidog ddweud i ba raddau yr ydym yn nes at gyrraedd y targed o 40,000 o swyddi newydd yng Nghymru, fel a addawyd yn y gyfres o ddogfennau strategol o 'Gwellcymru.com' hyd at 'Cynllun i Gymru 2001' sydd ar fin ymddangos? (OAQ12924)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr ydym wedi ymrwymo i greu rhagor o swyddi medrau uwch i bobl Cymru. Yr ydym ychydig dros draean o'r ffordd tua tharo'r nod a bennwyd yn 'Gwellcymru.com' o 40,000 o swyddi ychwanegol net ac fe fyddwn yn parhau i weithio i greu awyrgylch lle y gall busnesau modern ffynnu.

### Datganiad ar 'Cynllun ar gyfer Cymru 2001'

**C13 David Melding:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar statws y ddogfen bolisi sydd ar fin ymddangos, 'Cynllun i Gymru 2001'? (OAQ12914)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae'r cynllun yn darparu datganiad polisi newydd ac yn pennu rhaglen radicalaidd i gryfhau gwasanaethau cyhoeddus a chreu Cymru fodern. Mae'n disodli'r cynllun strategol gwreiddiol, 'Gwellcymru.com', ac yn ymgorffori'r ymrwymiadau a wnaed gan y Llywodraeth bartneriaeth yn 'Rhoi Cymru'n Gyntaf'.

Fel y dywedais yn gynharach, gwnaf ddatganiad manwl ar 'Cynllun i Gymru 2001' yn y Cyfarfod Llawn ddydd Iau.

### Effeithiau Clwy'r Traed a'r Genau ar Ddelwedd Cymru

**C14 Brian Hancock:** Pa gamau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cymryd i oresgyn effeithiau clwy'r traed a'r genau ar ddelwedd Cymru yn fyd-eang? (OAQ12922)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae Bwrdd Croeso Cymru yn cydweithio â'r Awdurdod Twristiaeth Prydeinig mewn marchnadoedd tramor allweddol i gywiro llawer camsyniad am sefyllfa clwy'r traed a genau yn y DU. Mae ymgyrchoedd marchnata tramor penodol wedi'u cychwyn ac mae Bwrdd Croeso Cymru wedi cael arian ychwanegol i'w helpu i farchnata Cymru.

Yn fwy cyffredinol, mae ein llwyddiant wrth ddenu digwyddiadau mawr y byd chwaraeon i Gymru—yn fwyaf diweddar y cyfleoedd gwych a ddaw yn sgil llwyfannu Cwpan Ryder yn 2010—yn helpu i hyrwyddo Cymru fel lle o'r radd flaenaf i ymweld â hi ac i gynnal busnes.

Byddwn yn parhau i ystyried cyfleoedd newydd a manteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael i hyrwyddo Cymru'n rhyngwladol.

*Tynnwyd cwestiwn 15 (OAQ12941) yn ôl.*